Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

16/11/2021

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Bydd noson rieni Blwyddyn 11 yn cael ei chynnal yn rhithiol eleni ar ddydd Iau 25ain o Dachwedd 2021. Bydd y noson yn dechrau am 15:30 ac yn gorffen am 19.00. Bydd y system apwyntiadau yn agor i rieni am 19:00 ar ddydd Iau 18fed o Dachwedd 2021 ac yn cau ar ddydd Iau 25ain o Dachwedd am 15:00. Mae'r noson yn hanfodol bwysig ac mae'n gyfle euraidd i drafod datblygiad academaidd a chymdeithasol eich plentyn ym Mryn Tawe.

Byddwn yn defnyddio system apwyntiadau trwy'r rhaglen SchoolCloud ar gyfer bwcio amser a chyfarfod gydag athrawon. Bydd pob apwyntiad yn para tua 4 munud. Gofynnwn i chi sicrhau eich bod yn gwneud apwyntiadau gyda phob pwnc mae eich mab/merch yn astudio fel TGAU. Gofynnwn hefyd eich bod yn dewis lleoliad priodol ar gyfer eich cyfarfodydd gydag athrawon. Mae'r manylion ar sut i fwcio apwyntiadau a threfn y noson wedi'u hatodi i'r llythyr yma. Os oes unrhyw gwestiwn neu bryder gennych, yna cysylltwch â mi yn yr ysgol.

Petai chi'n dymuno trefnu sgwrs fugeiliol gydag aelod o staff, bydd angen cysylltu gydag un o'r athrawon isod trwy e-bost, erbyn dydd Mercher 24ain o Dachwedd. Anfonwch e-bost gydag enw defnyddiwr HWB eich plentyn a syniad o amser addas er mwyn i gyfarfod cael ei drefnu trwy TEAMS. Nid oes rhaid trefnu cyfarfod bugeiliol.

Mr Mark Bridgens (Pennaeth Cynorthwyol Bugeiliol) – BridgensM@hwbcymru.net
Mrs Rhian Edwards-Jones (Dirprwy Prif Athrawes) – Edwa-JoneR@hwbcymru.net
Mr Simon Davies (Pennaeth yr ysgol) – DaviesS456@hwbcymru.net

Medrwch hefyd trefnu sgwrs ffôn gydag ein Cynghorydd Gyrfau petai chi'n dymuno trafod cynlluniau ar gyfer dyfodol eich mab/merch. Cysylltwch gyda Rhiannon Churchill o Gyrfa Cymru trwy e-bost er mwyn trefnu amser addas ar gyfer galwad ffôn gyda hi: Rhiannon.churchill@careerswales.com

---

Dear Parent / Guardian,

Year 11 parents' evening will be held virtually on Thursday 28th of November. The evening will start at 15:30 and finish by 19:00. The booking system will open at 19:00 on Thursday the 18th of November 2021 and will close on Thursday 25th of November at 15:00. This parents' evening is of great importance and represents a valuable opportunity for you to discuss your child's academic and social development at Bryn Tawe.

We will be using the SchoolCloud programme for booking and meeting with your child's teachers. Each appointment will last 4 minutes. We kindly ask that you make appointments with all of the subjects your son/daughter is studying at GCSE. We also kindly ask that you choose an appropriate location in which to conduct your meetings with your child's teachers. Details on how to set yourself up for the evening are attached to this letter. If you have any queries, do not hesitate to contact me at school.

Should you wish to arrange a pastoral meeting with a member of staff, you will need to contact one of the teachers listed below via email, by Wednesday 24th of November. Send an email which includes your child's HWB username and an indication of a suitable time. From there, a TEAMS meeting will be set up to enable your meeting on the Thursday evening. You do not have to book a pastoral meeting.

Mr Mark Bridgens (Assistant Head leading on Pastoral Care) – BridgensM@hwbcymru.net
Mrs Rhian Edwards-Jones (Deputy Headteacher) – Edwa-JoneR@hwbcymru.net
Mr Simon Davies (School Headmaster) – DaviesS456@hwbcymru.net

Finally, should you wish to discuss your child's plans for their future, you can organise a phonecall with the School's Careers Advisor. Contact Rhiannon Churchill from *Careers Wales* via email to arrange a suitable time for a phonecall: Rhiannon.churchill@careerswales.com

Yn gywir / Yours sincerely,
Naomi Tootill-Evans (Arweinydd Dysgu Blwyddyn 11/ Year 11 Leader of Learning **)**